# Adroddiad ar

# Brambly Hill Day Nursery and Early Years Academy

**Bloc B5**
**Safle Preswyl**
**Ysbyty Tywysog Philip**
**Dafen**
**Llanelli**
**SA14 8QF**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Brambly Hill Day Nursery and Early Years Academy

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Brambly Hill Day Nursery and Early Years Academy |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Leanne Drane |
| Person â gofal | Sharon Morgan |
| Nifer y lleoedd | 57 |
| Ystod oedran y plant | 0-7 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am a 6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw arolygiad cyntaf y lleoliad ers cofrestru ym mis Hydref 2022. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r lleoliad adfer darpariaeth addysg. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 09/10/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer cofnodi digwyddiadau a damweiniau

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn gwella medrau llafaredd plant

A3 Sicrhau bod ymarferwyr yn ennyn diddordeb plant yn brydlon yn eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, maent yn hapus i ymgysylltu ag ymwelwyr ac yn awyddus i siarad ag oedolion a'u cynnwys yn eu chwarae, eu dysgu a'u cyflawniadau. Mae lles y plant yn nodwedd gadarnhaol o'r lleoliad.

Mae bron pob un o'r plant yn symud yn hyderus rhwng ardaloedd a gweithgareddau ac yn dewis teganau ac adnoddau yn bwrpasol. Er enghraifft, mae plant iau yn cropian yn frwdfrydig tuag at fasgedi sy'n cynnwys teganau amlsynhwyraidd, ac yn cael mynediad atynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hunain a'u hanghenion yn effeithiol. Mae hyn gan wybod bod ymarferwyr yn ymateb iddynt ac yn gwrando arnynt yn barchus, er enghraifft pan fydd plant yn gwrthod y cynnig i ymuno â gweithgaredd peintio ac yn canolbwyntio ar dasgau eraill.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau yn y lleoliad yn hapus ac mae ymarferwyr yn eu cyfarch yn wresog. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni ac yn ymgynefino'n gyflym ag arferion cyfarwydd. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn amser cylch ac yn siarad yn rhwydd am eu teimladau a'r gweithgareddau dyddiol. Mae ychydig o blant yn edrych ar amserlen weledol i'w paratoi eu hunain ar gyfer y diwrnod sydd o'u blaenau. Mae bron pob un o'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, mae plant iau yn chwerthin ac yn gwenu wrth iddynt lithro i lawr matiau chwarae meddal. Mae'r rhan

fwyaf o blant yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn anhapus ac yn troi at ymarferwyr yn hyderus am gysur a chymorth.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio ag ymarferwyr ac â'i gilydd yn llwyddiannus. Mae plant hŷn yn dangos empathi tuag at eu ffrindiau, fel cynnig cyfarwyddiadau buddiol i'w gilydd yn ystod tasgau yn y pwll tywod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn dewis pryd i ddechrau gweithgaredd argraffu yn annibynnol. Maent hefyd yn dilyn cyfarwyddiadau gan ymarferwyr yn rhwydd, fel golchi eu dwylo cyn amseroedd prydau bwyd a helpu i dacluso adnoddau o'r neilltu.

Mae bron pob un o'r plant yn cael hwyl, yn egnïol ac wedi'u cymell wrth iddynt chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod ragorol o gyfleoedd diddorol, dan do a'r tu allan, ac yn mwynhau cydbwysedd da iawn o chwarae rhydd a gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Mae bron pob un o'r plant yn archwilio eu hamgylchedd yn synhwyrol ac yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn frwd. Maent yn ennyn diddordeb ymarferwyr yn eu chwarae a'u dysgu yn effeithiol ac yn ymdrwytho yn eu chwarae dychmygus yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r plant yn cynnal ffocws ac yn dal ati i ganolbwyntio am swm o amser sy'n briodol i'w hoedran, ac yn ymateb yn dda i ddefnydd cyson o ganmoliaeth gadarnhaol wrth ryngweithio ag ymarferwyr.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn llwyddiannus. Maent yn golchi eu dwylo cyn amseroedd prydau bwyd o'u gwirfodd ac yn defnyddio'r toiledau, gyda graddau amrywiol o gymorth, yn bwrpasol. Mae hyn hefyd yn wir am amseroedd prydau bwyd, ac mae plant yn dewis eu seddi'n ofalus, yn dewis cyllyll a ffyrc ac yn gweini eu hunain. Mae bron pob un o'r plant yn deall sut i ymddwyn yn dda iawn yn ystod amseroedd prydau bwyd ac yn sgwrsio'n gymdeithasol â'i gilydd ac ymarferwyr am eu hoff fwydydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair neu bedair oed sy'n bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arni heb allu adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw plant yn ddiogel ac iach. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo ac yn annog plant i aros yn egnïol mewn sesiynau chwarae dyddiol yn yr awyr agored, ac maent yn darparu dewisiadau o fyrbrydau iach. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn gyson ac yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn gweithredu'r polisi meddyginiaeth yn fedrus ac yn diwallu anghenion plant ag alergeddau yn ddiogel. Fodd bynnag, wrth gofnodi damweiniau a digwyddiadau, nid yw arferion presennol y lleoliad yn adlewyrchu unrhyw batrymau neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn ddigon da ymhlith y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio arferion hylendid da yn gyson, yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn delio â gofal personol yn effeithiol, er enghraifft newid clytiau.

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng, ac yn ymarfer driliau tân rheolaidd gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn anogol. Maent yn cyfathrebu â phlant mewn modd gwresog a chyfeillgar, gan greu awyrgylch digynnwrf a hamddenol. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer plant ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod eu gweithgareddau a'u harferion chwarae. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda phlant pan fyddant yn edrych ar lyfrau, gan ennyn diddordeb y plant mewn trafodaethau am y lluniau, gofyn cwestiynau medrus a chyflwyno geirfa newydd. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac yn cynorthwyo plant yn dda yn unol â'u hanghenion unigol. Maent yn siarad â phlant yn sensitif ac yn eu cynorthwyo wrth iddynt ddysgu rhannu a chymryd eu tro gyda'u ffrindiau. Mae ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn bwrpasol, sy'n codi hunan-barch a hyder plant yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn canmol plant yn frwdfrydig yn ystod sesiynau 'Helpwr Heddiw' a gweithgareddau creadigol.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn eu chwarae yn llwyddiannus ac yn chwilio am gyfleoedd i ymestyn dysgu plant yn reddfol, er enghraifft pan fydd plant yn cymysgu lliwiau i greu gwahanol arlliwiau pinc. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gofalwyr ac maent yn defnyddio amseroedd gollwng a chasglu yn effeithiol i roi gwybodaeth berthnasol iddynt am anghenion unigol eu plant.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd plant yn ddiwyd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfnod datblygu. Mae llawer o ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda, gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml trwy gydol y sesiynau yn briodol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu brwdfrydig yr ymarferwyr yn annog plant i weithio gyda'i gilydd a dysgu'n effeithiol, sy'n cael effaith bwrpasol ar eu dysgu a'u datblygiad medrau. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n annog plant i fentro a datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn herio plant i ddod o hyd i ddail a chnau castan, a'u cyfrif, yn annibynnol yn yr ardal awyr agored a dilyn rysáit 'stiw sticlyd' tra'n arbrofi yn y gegin fwd.

Yn ystod tasgau a gweithgareddau, mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau ysgogol gyda phlant tra byddant yn chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn herio plant i falansio clorian ag afalau a defnyddio blociau tri dimensiwn i adeiladu tyrau o uchderau amrywiol. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau. Maent yn annog plant yn fedrus i arbrofi yn eu chwarae, a mentro. Er enghraifft, maent yn herio plant i arllwys dŵr i mewn i gafnau yn araf ac yn gyflym, heb achosi i unrhyw ddŵr gael ei golli. Fodd bynnag, ambell waith, mae ymarferwyr

yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i'r plant, ac nid yw hyn yn ennyn diddordeb pob un o'r plant yn llawn yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cynnwys parodrwydd i ganlyn diddordebau'r plant yn dda. Maent yn addasu eu cynllunio yn fedrus. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol, fel arbrofi â phaent a chymysgu lliwiau cyn creu hunanbortreadau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd plant ac yn eu holi'n fedrus wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i blant drafod sut i greu llwybrau antur gan ddefnyddio planciau, cretiau a theiars. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau Cymraeg llafar plant mor effeithiol. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol plant yn effeithiol. Maent yn eu herio i ddidoli a chyfrif cerrig bach, darnau o bren a moch coed yn yr ardaloedd ymchwiliol, a rhaglennu teganau electronig i symud mewn gwahanol gyfeiriadau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio eu harsylwadau o gyflawniadau plant yn effeithiol ac yn alinio'r rhain yn bwrpasol â'u hasesiadau. Cânt eu defnyddio'n llwyddiannus i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i falansio ar blanciau a reidio beiciau o gwmpas yr ardal chwarae yn annibynnol. Maent hefyd yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel galluogi plant i arbrofi â gwahanol rythmau gan ddefnyddio offerynnau taro.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, fel astudio'r hanes ynglŷn â'r ddraig goch ar faner Cymru ac adeiladau enwog o gwmpas Llanelli. Maent hefyd yn dathlu amrywiaeth yn fuddiol. Mae hyn yn cynnwys trafod llyfrau ar wahanol ddiwylliannau i blant ddysgu am wyliau, fel dathliadau Diwali a blodau ceirios Siapan.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae'r adeiladau'n gynnes, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn rhagorol. Mae'r fynedfa yn ddiogel, ac mae'r drysau dan glo yn sicrhau mai ymarferwyr yn unig sy'n rhoi mynediad wedi'i awdurdodi. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer yr adeiladau. Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel trwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd i nodi a dileu risgiau i ddiogelwch plant, lle bo modd. Maent yn glanhau'n ddiwyd trwy gydol y dydd, ac ychwanegir at hyn ymhellach gan lanhawr ymroddgar sy'n cynnal safonau eithriadol o dda. Mae'r lleoliad yn berffaith lân drwyddo, ac mae arferion rheoli heintiau eithriadol o dda yn lleihau unrhyw risg i iechyd a diogelwch plant yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd dan do yn eithriadol o groesawgar ac yn addas iawn ar gyfer plant. Mae'n darparu ardaloedd golau, eang a chyffrous iawn i blant archwilio a datblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod. Mae plant yn symud yn rhydd mewn gofod sy'n ddychmygus, yn ddeniadol ac wedi'i ddylunio i ennyn eu diddordeb mewn chwarae a dysgu. Mae plant yn elwa ar ystafelloedd sydd wedi'u rhannu yn

orsafoedd ag ynddynt adnoddau da, y mae plant yn eu harchwilio'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae ardaloedd creadigol ac ymchwiliol, a chornel gartref ysgogol, yn hyrwyddo chwilfrydedd a diddordebau plant yn ddychmygus. Mae plant iau yn archwilio eu hardal dan do ddynodedig ac yn rhyngweithio'n ddiogel â'r plant hŷn ac ymarferwyr yn yr ystafell drws nesaf yn synhwyrol. Mae hyn yn cefnogi cyfnod pontio plant i'r cam nesaf yn eu dysgu yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn arddangos gwaith plant yn bwrpasol, sy'n cryfhau cysylltiad y plant â'u hamgylchedd dysgu yn dda. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cymell ac yn ysbrydoli plant, sy'n ymestyn eu cyfleoedd chwarae yn dda iawn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sefydlu ardal fwyta yn arloesol ar gyfer plant, gan ddefnyddio llestri go iawn, setiau cyflawn a fasys o flodau go iawn. Mae plant sy'n chwarae yn y gornel gartref yn copïo hyn ac yn paratoi'r bwrdd a chinio ar gyfer eu doliau gan ddefnyddio deunyddiau dilys, fel tuniau o bysgod a llysiau wedi'u torri.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y gofod chwarae yn yr awyr agored yn cael ei ddefnyddio mor aml ag y bo modd ac yn estyniad effeithiol iawn at yr amgylchedd dysgu. Mae plant yn symud yn rhydd rhwng yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored. Mae adnoddau ac offer chwarae o ansawdd da yn yr awyr agored yn herio, ac yn ysgogi chwilfrydedd a diddordebau plant yn arloesol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu offer ar gyfer plant sy'n cael ei osod yn annibynnol yn gyrsiau rhwystrau yn ystod sesiynau chwarae dychmygus. Mae plant yn mwynhau'r cyfleoedd a ddarperir i ddefnyddio ardaloedd ar gyfer amseroedd tawel hefyd, fel ymgolli mewn llyfrau yn ardal y guddfan.

Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd uchel ac sy'n ddatblygiadol briodol i hyrwyddo ystod eang o amrywiaeth a dewis i blant. Maent yn darparu adnoddau ysgogol ac arloesol ar gyfer pob oedran a cham datblygu, sy'n cynnwys offer digidol, adeiladu a synhwyraidd. Mae'r dodrefn hefyd yn cefnogi annibyniaeth plant, fel byrddau a chadeiriau o faint addas ar gyfer plant, a mannau storio teganau ar lefel isel, sy'n addas ar gyfer oedrannau pob un o'r plant yn y lleoliad. Ceir nifer dda o doiledau plant a chyfleusterau newid clytiau, sy'n hollol lân ac yn cael eu cynnal yn dda. Yn ychwanegol, mae sebon a chyfleusterau sychu dwylo yn gwbl hygyrch i gefnogi annibyniaeth plant ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion gofal personol yn dda.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol sy'n canolbwyntio'n ddiwyd ar wella darpariaeth a deilliannau plant. Mae ganddynt weledigaeth glir, ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i hwyluso trefniadau gofal a chymorth trylwyr, sy'n cyfoethogi dysgu'r plant. O ganlyniad, mae eu harferion trylwyr a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n darparu profiadau difyr a rhagorol ar gyfer plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn darparu gofal bugeiliol cefnogol ar gyfer plant. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn o fewn y lleoliad ac yn yr ardaloedd awyr agored. Mae'r ethos gofalgar ac anogol yn annog plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau yn ystod dysgu a chwarae. Mae arweinwyr yn cynnal cysylltiad rheolaidd â rhieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plant. Maent yn defnyddio cyfryngau

cymdeithasol yn synhwyrol a llyfrynnau gwybodaeth ddyddiol i roi gwybodaeth berthnasol iddynt am gyflawniadau eu plant.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant buddiol i wella'u haddysgu a'u harferion gofal. O ganlyniad, maent wedi'u cymell ac yn awyddus i lwyddo. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau eu bod yn diweddaru dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau rheolaidd i ddatblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol, sy'n arwain at dargedau cywir ar gyfer gwella. O ganlyniad, maent yn nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen sylw yn effeithiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar wella arferion adborth i rieni a threfnu cyfarfodydd goruchwylio a chyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella darpariaeth a phrofiadau plant, fel awgrymiadau swyddogion o asiantaethau cymorth. O ganlyniad, maent yn llwyddo i ddarparu gweithgareddau ysgogol yn yr ardal awyr agored ac yn defnyddio adnoddau naturiol, fel arteffactau hydrefol, i hyrwyddo dysgu pwrpasol.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol, ac mae'r cysylltiadau hyn yn cefnogi'r lleoliad trwy ddarparu profiadau difyr i blant ddysgu am eu 'cynefin'. Er enghraifft, mae adroddwyr storïau yn ymweld â'r lleoliad i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ychwanegol, mae artistiaid amgylcheddol yn herio plant i fodelu â chlai ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r parc lleol i ysgogi diddordeb plant mewn bywyd gwyllt yn effeithiol. Mae ymarferwyr hefyd yn gweithio'n dda gyda llawer o ysgolion i hwyluso proses cyfnod pontio plant i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n effeithlon. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Maent hefyd yn ariannu adnoddau amrywiol yn ddeallus, er enghraifft darparu offer ac adnoddau dilys ar gyfer y gegin fwd ac offer chwarae yn y dŵr i gludo a rhaeadru dŵr yn yr awyr agored.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Rhagfyr 2023